

Y Beibl Cymraeg: cyflwyniad gan Yr Athro E. Wyn James

<http://cristnogaeth.cymru/beiblau-cymraeg/>

Yn 1563 pasiwyd y ddeddf bwysicaf erioed yn hanes y Gymraeg, un a orchmynnodd gyfieithu'r Beibl a llyfr gwasanaethau'r Eglwys Wladol i'r Gymraeg, a'u defnyddio'n gyson yn yr eglwysi ym mhob man lle y siaredid y Gymraeg yn gyffredinol – sef, ar y pryd, yn y rhan fwyaf o Gymru a rhannau o'r Gororau. Gan fod disgwyl i bawb yr adeg honno fod yn aelod o'r Eglwys Wladol a mynychu ei gwasanaethau'n rheolaidd, canlyniad deddf 1563 oedd nid yn unig roi statws swyddogol i'r Gymraeg ym myd crefydd ond hefyd beri ei chlywed yn gyson mewn gwasanaethau ar hyd a lled y wlad – a hynny lai na 30 mlynedd wedi i Ddeddf Uno 1536 wneud y Saesneg yn iaith swyddogol y gyfraith a gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Cymerodd dros 50 mlynedd i'r Beibl Cymraeg gyrraedd ei ffurf derfynol. Erbyn 1567 roedd William Salesbury, gyda chymorth yr Esgob Richard Davies yn bennaf, wedi cyfieithu'r Testament Newydd a'r Salmau. Yna aeth William Morgan ati erbyn 1588 i ddiwygio gwaith Salesbury a chyfieithu gweddill yr Hen Destament. Yn sgil cyhoeddi'r fersiwn 'awdurdodedig' o'r Beibl Saesneg, y 'King James Version', yn 1611, penderfynodd yr Esgob Richard Parry baratoi fersiwn diwygiedig o 'Feibl William Morgan'. Ysgwyddwyd pen tryma'r gwaith diwygio gan un o ysgolheigion gwychaf y Gymraeg, Dr John Davies, Mallwyd. Cyhoeddwyd y fersiwn diwygiedig hwnnw 400 mlynedd yn ôl, yn 1620, a dyna fu Beibl y Cymry am y 350 mlynedd nesaf.

Anodd gorbwysleisio pwysigrwydd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Am ganrifoedd bu ei ddylanwad yn drwm ar bob agwedd ar fywyd Cymru. Aeth ei arddull a'i ymadroddion i fêr esgyrn yr iaith. Yn wir, pe na bai'r Beibl wedi ei gyfieithu bryd hynny, mae'n amheus a fyddai'r Gymraeg wedi goroesi. Roedd cyfieithwyr Beibl 1988 yn llygad eu lle wrth alw Beibl 1620 'yn brif drysor crefyddol, diwylliannol a llenyddol ein cenedl'. Dyma, yn ddi-os, garreg filltir eithriadol bwysig yn hanes Cymru, sy'n haeddu dathlu mawr!